


## ELLIS, ROBERT ('Cynddelw', 1812 - 1875), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, pregethwr, bardd, hynafiaethydd, ac esboniwr



**Enw:** Robert Ellis

**Ffugenw:** Cynddelw

**Dyddiad geni:** 1812

**Dyddiad marw:** 1875

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr, pregethwr, bardd, hynafiaethydd, ac esboniwr

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** John Thomas Jones

Ganwyd 3 Chwefror 1812 yn Nhy'n-y-meini, yn agos i Benybontfawr. Gwas fferm ydoedd o 1822 hyd 1835. Ei fam, ond odid, a llenorion gwlad fel Richard Morris ('turner'), Pentrefelin, James Jones y teiliwr, a **Humphrey Bromley**, pregethwr gyda'r Sosiniaid, a roes iddo ei ddiddordeb mewn llên a hynafiaethau a'i wybodaeth o gerdd dafod. Dyna ei bethau yn gyfan gwbl ymron nes iddo ymuno ag eglwys y Bedyddwyr, Gefailrhyd (1832), a dechrau pregethu yn 1834. Cafodd ryw 10 mis o ysgol gyda **John Williams**, awdur *Yr Oraclau Bywiol*, yn Llansilin yn 1835. Dyma ei feysydd gweinidogaethol: Llanellian a Llanddulas, 1836-8; Glynceiriog, 1838-42; Sirhowy, 1847-62; Caernarfon, 1862-75. Bu farw 19 Awst 1875, yn ei hen gartref, y Gartheryr, rhwng Croesoswallt a Llanrhaeadr, ac yntau ar daith bregethu a darlithio.

Yn anad dim, gwr amryddawn ydoedd. Pregethwr esboniadol, athrawiaethol, defnyddiol ydoedd, yn gryn feistr ar Gymraeg pulpudol ei ddydd, yn parhau yn glir ac yn groyw, a'i ynganiad yn llithrig a naturiol. Yr oedd yn cyfrif mewn cylchoedd barddonol ac eisteddfodol. Ei awdl, 'Yr Adgyfodiad,' yng nghystadieuath **Gwrwst** (yn *Seren Gomer* 1849), a'i dug i sylw fel bardd ac a roes iddo ei enw barddonol. 'Cywydd y Berwyn,' efallai, yw ei waith barddonol mwyaf gorchestol, ac y mae swyn yn ei 'Awdl ar Ddistawrwydd.' Bu iddo fri cenedlaethol yn yr eisteddfod fel beirniad (barddoniaeth gan amlaf), arweinydd, ac areithydd. Yn *Tafol y Beirdd*, 1853, trinia'r pedwar-mesur-ar-hugain; golygodd ail argraffiad *Gorchestion Beirdd Cymru* o gasgliad **Rhys Jones**, ac argraffiad **Isaac Foulkes** o *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*. Efe hefyd a gynullodd *Blodau Arfon* ('*Dewi Wyn*'), a golygu *Geiriadur y Bardd*. Ymhyfrydai mewn rheiriaduriaeth a chynhyrchodd *Geiriadur Cymreig Cymraeg*, 1868. Cyhoeddwyd *Barddoniaeth Cynddelw* dan olygiaeth '**Ioan Arfon**' gan **H. Humphreys**, Caernarfon, yn 1877. Yr oedd iddo ddiddordeb mewn pob math o hynafiaethau - cyhoeddodd *Manion Hynafiaethol*, 1873, a chyfrannodd ddeunaw pennod i *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry* ('**Gweirydd ab Rhys**'). Yn herwydd ei ddawn siarad naturiol, ei ffraethineb, a'i wybodaeth eang, yr oedd yn un o ddarlithwyr enwog ei gyfnod, onid yr enwocaf oll, ac, er bod ganddo gyflawnder o destunau, llenyddiaeth a hanes Cymru oedd ei hoff faes, a'i ddarlithiau wedi eu bachu wrth ei ddawn chwilota. Bu'n gymwynasydd i Wasg ei enwad. Yr oedd yn olygydd *Y Tyst Apostolaidd*, 1846-50; *Y Tyst*, 1851; *Y Greal*, 1852-3, a pharhaodd i olygu barddoniaeth *Y Greal* hyd ddiwedd ei oes; golygodd hefyd golofn farddonol *Seren Gomer*, 1854-9. Cofiannau **John Williams** (*Yr Oraclau Bywiol*) a **Dr. Ellis Evans**, Cefnmawr - efe biau'r rhain. Parhaodd ei *Esboniad ar y Testament Newydd* i ymddangos yn rhannau o 1855 hyd ei farw. Cyfrannodd ysgrifau i *Eirlyfr Bywgraffyddol* (**Isaac Foulkes**) a *Gwyddoniadur Cymreig* Dinbych, heb sôn am y cyfnodolion. Ni bu'n ddihidio o ddadleuon diwinyddol ei ddydd, yn enwedig y dadleuon Macleanaidd a'r dadleuon Campbelaidd. Sonir yn fynych am harddwch ei gorff, cryfder ei gof, nwyfiant a ffraethineb ei dymheredd, ac i'w gyfoeswyr yr oedd ei athrylith amlweddog a chyfoeth ei wybodaeth yn dra rhyfeddol.

### Awdur

**John Thomas Jones**

### Ffynonellau

D. Williams, *Cofiant y Parch. R. Ellis (Cynddelw) Caernarfon*

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Robert Ellis**

### Delweddau

John Thomas, **The Reverend Robert Ellis, 'Cynddelw'**

Hugh Humphreys, **Robert Ellis, 'Cynddelw'**

Hugh Humphreys, Robert Ellis, 'Cynddelw'

Rev. Robert Ellis (Cynddelw)

Hugh Humphreys, Robert Ellis, 'Cynddelw'

Hugh Humphreys, Rev. R. Ellis, 'Cynddelw'

Y diweddar Barch. Robert Ellis (Cynddelw)

John Thomas, Er cof hiraethlawn am Parch. Robert Ellis, (Cynddelw), Caernarfon Ganwyd Chwefror 3ydd, 1812. Bu farw Awst 19eg, 1875. Gorphwysa yn Mynwent Glyn Ceiriog

## Gweithiau

Robert Ellis, *Darlith ar hanes y Bedyddwyr* (Llangollen 1850)

Robert Ellis, *Cofiant y diweddar Parch. John Williams, Rhosllanerchrugog* (Llangollen 1871)

Thomas Edwards, Robert Ellis, *Hanes bywyd Richard Robert Jones, neu Dic Aberdaron: Cymro nodedig am ei dalent a'i archwaeth at ddysgu ieithoedd, yr hwn, yn wyneb pob anfantais, a weithiodd ei ffordd nes dyfod yn hyddysg mewn pedair ar ddeg o ieithoedd!* (Caernarfon 1870?)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7344015](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, J. T., (1953). ELLIS, ROBERT ('Cynddelw', 1812 - 1875), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, pregethwr, bardd, hynafiaethydd, ac esboniwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ELLI-ROB-1812>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Modur gan:  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by:  
Welsh Government